Adroddiad Cyn y Gyllideb

Cynyddu ffyniant hir dymor i bawb

Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn disgrifio strategaeth y Llywodraeth i gynyddu ffyniant hir dymor i bawb.

Amcan y Llywodraeth yw creu economi gref a sefydlog. Gan adeiladu ar lwyfan o sefydlogrwydd economaidd, ei nod yw gwella perfformiad cynhyrchu hir dymor Prydain, rhoi cyfleoedd cyflogaeth i bawb, a sicrhau cymdeithas decach a mwy cynhwysol lle y gall pawb rannu mewn gwell safonau byw.

Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn amlinellu cam nesaf y diwygiadau y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori arnynt yn y cyfnod cyn Cyllideb 2001.

Mae'r Llywodraeth am glywed eich safbwyntiau ar y materion a'r cynigion yn yr Adroddiad Cyn y Gyllideb. Mae slip sylwadau ynghlwm wrth y daflen hon. Fel arall, gallwch e-bostio eich safbwyntiau i budget@hm-treasury-gov.uk

Cyflwyno economi sefydlog

Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i osgoi dychwelyd i gylch ffyniant a methiant y gorffennol, gan gynnwys gostwng y lefelau benthyg uchel a etifeddwyd gan y llywodraeth. Bellach mae twf cyson a sefydlog yn cyd-fynd â'r lefelau uchaf o gyflogaeth erioed, chwyddiant isel yn hanesyddol a sefyllfa gadarn o ran arian cyhoeddus:

- disgwylir i **chwyddiant** aros yn agos at darged y Llywodraeth o 2½%;
- mae'r economi yn parhau i ehangu, a rhagwelir **twf economaidd** o 3% eleni a 2¼-2¾% ar gyfer y blynyddoedd canlynol; a
- mae'r Llywodraeth wedi ad-dalu'r ddyled ymhob un o'r ddwy flynedd diwethaf ac mae ar y trywydd iawn i wneud hynny eto eleni. Erys **arian y cyhoedd** ar y trywydd iawn i fodloni rheolau caeth y Llywodraeth ar gyfer benthyg.

Oherwydd ymrwymiad y Llywodraeth i ddarbodusrwydd a sefydlogrwydd, roedd yn gallu cynyddu buddsoddiad yng ngwasanaethau cyhoeddus ariannol Prydain yn Arolwg Gwariant Gorffennaf 2000 – gan gynnwys adnoddau newydd sylweddol dros y 3 blynedd nesaf ar gyfer addysg, iechyd, trafnidiaeth ac ymladd troseddau.

Bargen deg i drafnidiaeth a'r amgylchedd

Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn cynnwys pecyn o fesurau i leddfu pryderon pobl am effaith prisiau olew cynyddol ar yr economi a safonau byw heb beryglu sefydlogrwydd economaidd hir dymor, buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus nac enillion amgylcheddol.

Bydd y Llywodraeth:

- **yn rhewi'r holl drethi tanwydd yn nhermau ariannol yng Nghyllideb 2001,** gan ostwng trethi petrol a disel tua 1½c y litr mewn termau gwirioneddol.

Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar:

- cynigion i **dorri 2c oddi ar y dreth ar gyfer petrol sylffwr isel iawn** y gellir ei ddefnyddio ymhob car a **thorri 3c oddi ar y dreth ar gyfer disel sylffwr isel iawn** o fis Ebrill y flwyddyn nesaf;

- cymorth pellach ar gyfer y diwydiant cludo, gan **dorri mwy na 50% ar gyfartaledd** oddi ar y **dreth cerbyd (VED) i lorïau** yng Nghyllideb 2001 (gan gynnwys cyfraddau is ar gyfer lorïau glanach). Fel trefniant trosiannol, mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo hyd at £265 miliwn eleni, sy'n golygu **ad-daliad o hyd at 50% mewn VED lorïau;**

- **cyflwyno system 'vignette'**, sef disg Prydeinig i sicrhau bod lorïau nad ydynt yn rhai Prydeinig yn talu eu cyfran hwy o'r gost am ddefnyddio ffyrdd Prydain; ac

- **ymestyn cyfradd ostyngol VED i geir presennol sydd ag injan hyd at 1,500cc** sy'n golygu y bydd 8.4 miliwn o geir – 5 miliwn ychwanegol – yn talu'r gyfradd ostyngol.

Tegwch i deuluoedd a chymunedau

Mae'r Llywodraeth am greu cymdeithas decach a mwy cynhwysol lle y gall pawb gyfrannu at ffyniant cynyddol y wlad ac elwa arno. Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn disgrifio'r camau pellach y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd, gan gynnwys mesurau i sicrhau tegwch i bensiynwyr, buddsoddi mewn addysg a chefnogi cynilo:

- pecyn i **roi hwb i incwm pensiynwyr;**

- **cynyddu taliad tanwydd gaeaf** a bennir ar £150 ar gyfer blynyddoedd i ddod, £50 pellach ar gyfer y gaeaf hwn – taliad o £200 i bob cartref pensiynwyr;
- **cynyddu pensiwn sylfaenol y wladwriaeth** £5 yr wythnos i bensiynwyr unigol ym mis Ebrill 2001 a £3 arall yr wythnos ym mis Ebrill 2002. Ar gyfer parau, bydd cynnydd cyfatebol o £8 a £4.80 yr wythnos;
- **cynyddu'r Gwarant Isafswm Incwm** i £92.15 yr wythnos i bensiynwr unigol a £140.55 yr wythnos i barau ym mis Ebrill 2001, ac o leiaf £100 i bensiynwr unigol a £154 i bâr o bensiynwyr erbyn 2003; ac
- **ymgynghori ar godi'r lwfansau treth personol sy'n gysylltiedig ag oedran** £240 yn ychwanegol at fynegeiddiaeth i bensiynwyr yn 2003-04.

- ymestyn terfyn cyfrannu blynyddol y **Cyfrif Cynilo Unigol (ISA)** o £7,000 (a'r terfyn arian parod o £3,000) hyd at Ebrill 2006, a sicrhau bod ISAs arian parod ar gael i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed o fis Ebrill 2001; a
- **buddsoddiad o £200 miliwn ychwanegol mewn adeiladau ysgolion** eleni gyda thaliadau uniongyrchol pellach i ysgolion.

Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb

Bellach mae dros 1 filiwn yn rhagor o bobl mewn gwaith nag yr oedd yng ngwanwyn 1997 ac mae diweithdra wedi syrthio i'w lefel isaf ers mwy nag 20 mlynedd.



Mae Bargen Newydd y Llywodraeth eisoes wedi helpu i ddod o hyd i swyddi i bron 245,000 o bobl ifanc. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi gostwng 70% ac mae diweithdra hir dymor wedi gostwng mwy na 60% dros y 3½ blynedd diwethaf.

Mae'r Fargen Newydd yn helpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i rieni unigol, pobl ddi-waith hir dymor a phobl ag anableddau hefyd.

Gan ddatblygu ar y Fargen Newydd a gwneud diwygiadau radical er mwyn gwneud i waith dalu, mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn:

- ymestyn cymorth a chefnogaeth y Fargen Newydd gan ddechrau o hydref 2001 i bob **rhiant unigol** ar Gymhorthdal Incwm nad yw'n gweithio neu sydd yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos; a
- cyhoeddi **Gwasanaeth Pontio Swyddi** sy'n darparu cymorth ychwanegol fel y gall y rheini yr effeithir arnynt o ganlyniad i swyddi a gollir ar raddfa fawr symud i swyddi newydd.

Cwrdd â'r her cynhyrchu

Mae cynnyrch fesul gweithiwr (cynhyrchiant) ym Mhrydain yn is nag y mae mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau, yr Almaen a Ffrainc. Mae hon yn hen broblem, ac yn un y mae'r Llywodraeth yn benderfynol o ymdrin â hi.

Bydd cau'r bwlch cynhyrchu â gwledydd eraill a gwella perfformiad cynhyrchu Prydain yn golygu mwy o swyddi a gwell safonau byw yn y dyfodol.

Cynhyrchiant – cynnyrch fesul gweithiwr



Ffynhonnell: OECD, DU = 100

Gan adeiladu ar Ddeddf Gystadlu newydd i hyrwyddo economi fwy cystadleuol, diwygiadau treth i gynyddu menter a buddsoddi, ac adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg a hyfforddiant, mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn nodi:

- cynigion ar gyfer pecyn mawr o fesurau TAW o fis Ebrill 2001 i **leihau'r baich gweinyddol ar gwmnïau bach a chanolig eu maint a gwella eu llif arian;** a
- camau pellach i **hyrwyddo menter ymhob ardal**, gyda mwy o ryddid a hyblygrwydd ar gyfer Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol gan ddatblygu cynigion y Tasglu Buddsoddi Cymdeithasol i **ysgogi rhagor o fuddsoddiad preifat mewn ardaloedd difreintiedig.**

Ble y caiff arian y trethdalwyr ei wario

Disgwylir i gyfanswm gwariant cyhoeddus fod tua £372 biliwn eleni, tua £6,000 am bob dyn, gwraig a phlentyn yn y DU.

O ganlyniad i'r adnoddau cynyddol a gyhoeddwyd yn Arolwg Gwariant 2000, disgwylir i hyn gynyddu i £395 biliwn y flwyddyn nesaf a £443 biliwn erbyn 2003-04 – gyda dros hanner y cynnydd rhwng 2001-01 a 2003-04 wedi ei ddyrannu i addysg a iechyd, ac 20% arall i drafnidiaeth, tai a chyfraith a threfn.



Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcangyfrifon 2000-01



Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcangyfrifon 2000-01

Dod i gysylltiad:

Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiad Cyn y Gyllideb a chynlluniau gwario'r Llywodraeth ar wefan y Trysorlys yn http://www.hm-treasury.gov.uk

Hoffai'r Llywodraeth glywed eich barn yn y cyfnod cyn Cyllideb 2001.

Ysgrifennwch eich sylwadau yma a dychwelwch y dudalen hon mewn amlen (nid oes angen stamp) i'r cyfeiriad ar y cefn.

A fyddech cystal â chwblhau a datgysylltu'r dudalen sylwadau hon a'i hanfon mewn amlen i:

Pre-Budget Report
Freepost SCE 11020
Hayes
Middlesex
UB3 1BR

Nid oes angen stamp